


# Crynodeb o'r Ymgynghoriad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014




## Rhan 9

Cydweithio




**Rheolau a gwybodaeth am sut i gydymffurfio â'r Ddeddf**




**Fersiwn Hawdd ei Darllen**




# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014




Mae'r Ddeddf newydd yn ymwneud â gofal cymdeithasol yng Nghymru.




Daw'r Ddeddf i rym ym mis Ebrill 2016.



Yn ogystal â'r Ddeddf, ceir:




- rheolau. Gelwir y rheolau yn **Rheoliadau**.




- gwybodaeth am sut i gydymffurfio â'r gyfraith,  sef **Codau Ymarfer** neu **Ganllawiau Statudol.**




# Sut y gwnaethom y gwaith hwn



Gwnaethom wrando ar arbenigwyr o bob cwr o Gymru.




Yna, gwnaethom nodi ein syniadau.



Nawr rydym am wybod beth yw barn pawb.




Mae sawl Rhan i'r Ddeddf newydd. Mae pob Rhan yn ymwneud â rhywbeth gwahanol.




Rhwng mis Mai a mis Gorffennaf, rydym yn gofyn i bawb am eu barn ar y rheolau ar gyfer:






**Rhan 4**

Cyfrannu at Daliadau Uniongyrchol a dewis cartref gofal

**a**

**Rhan 5**

Talu am ofal a chymorth






**Rhan 6**

Plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal




## Rhan 9

Cydweithio







## Rhan 10

Gwasanaethau Eirioli






# Rhan 9




Mae Rhan 9 yn cynnwys rheolau o ran cydweithio.



Y nod yw gwneud bywyd yn well i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt.



Bydd y rheolau hefyd yn sicrhau bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu rhedeg yn well.




Mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i gynghorau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gydweithio er mwyn dysgu am y canlynol:



- anghenion gofal a chymorth pobl leol



- anghenion cymorth gofalwyr lleol




- pa wasanaethau y mae eu hangen yn lleol




Gall Gweinidogion Cymru lunio rheolau o ran cydweithio i ddarparu gwasanaethau. Gall y rheolau ymwneud â'r canlynol:




- ffyrdd y gall sefydliadau gydweithio



- rhannu staff, cyfarpar ac arian




# Rhan 9

# Rheolau




Byddwn yn defnyddio'r rheolau i wneud y canlynol:




- Nodi sut y dylai cynghorau lleol a byrddau iechyd lleol gydweithio




- Sefydlu chwe bwrdd ledled Cymru lle bydd cynghorau lleol a byrddau iechyd lleol yn cydweithio:
    - Gogledd Cymru
    - Canolbarth a Gorllewin Cymru
    - Gwent
    - Caerdydd a'r Fro
    - Cwm Taf
    - Bae'r Gorllewin






- Nodi pwy ddylai fod ar bob bwrdd, a'r hyn y dylai'r byrddau ei wneud.




- Nodi bod yn rhaid i bob bwrdd lunio adroddiad i Weinidogion Cymru. Bydd yr adroddiad yn nodi a ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau.



- Sefydlu cronfa a rennir o arian i ddarparu gwasanaethau



- Sefydlu timau cymorth i deuluoedd gyda staff o wasanaethau gwahanol




- Nodi sut y caiff pobl eu hatgyfeirio at y tîm cymorth i deuluoedd.




# Rhan 9

## Sut i gydymffurfio â'r Ddeddf newydd



Rydym wedi llunio gwybodaeth am y modd y dylai gwasanaethau iechyd a chymdeithasol gydweithio. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt newid y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau.




Y gwasanaethau cyntaf y mae'n rhaid iddynt eu newid yw:



- gwasanaethau i bobl hŷn y mae angen llawer o wasanaethau gwahanol arnynt




- Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd gyda staff o wasanaethau gwahanol



- gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu




- gwasanaethau i blant y mae angen llawer o wasanaethau gwahanol arnynt.



- gwasanaethau i ofalwyr




Mae'n rhaid i bob bwrdd benderfynu sut i wneud hyn. Gallent:



- sefydlu grwpiau i redeg neu reoli gwasanaethau




- sefydlu timau gyda staff o wasanaethau gwahanol